# Cofnodion

## Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Iau, 20 Medi 2018 |
| Amser: | 10.00 am |
| Bresennol: | Cynghorwyr M Al-Nuaimi, G Berry, C Evans, M Evans, C Ferris, L Lacey, M Spencer and T Holyoake |
| Yn bresennol: | Daniel Cooke (Cynghorydd Craffu), Leigh Jones (Swyddog Llywodraethu), James Harris (Strategic Director - People), Sally Ann Jenkins (Strategic Director - Social Services), Jenny Jenkins (Service Manager Adult & Community Services), Jonathan Keen (Regulatory Services Manager Environment and Community), Eleanor Mulligan (Democracy and Communications Manager) and Liz Blayney (Rheolwr Craffu a Llywodraethu) |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorwyr J Guy and K Thomas |

---

1 **Ethol Cadeirydd**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Gadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd John Guy. Yn absenoldeb y Cadeirydd, hysbyswyd y Pwyllgor y byddai angen enwebu aelod arall o'r Pwyllgor i weithredu fel Cadeirydd yn y cyfarfod hwn, a phleidleisio ar hynny. Enwebodd y Pwyllgor y Cynghorydd Miqdad Al-Nuaimi i Gadeirio'r cyfarfod, a chytunodd y Pwyllgor yn unfrydol i hynny.

2 **Datganiadau o Fuddiant**

Dim

3 **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2018**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2018 yn gywir, yn amodol ar gywiro'r canlynol:

- **Eitem 2, 'Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2018'**: Dywedodd y Pwyllgor nad oedd y cais am fanylion ynghylch cyfreithlondeb y gwaharddiad cyffredinol ar gardota a oedd wedi cael ei weithredu gan drefi fel Swindon a Kettering wedi'i gynnwys yn y cofnodion, ac y gofynnwyd am hynny yng nghyfarfodydd mis Mehefin a mis Gorffennaf.

4 **Swyddfa Archwilio Cymru - 'Trosolwg a Chraffu - Yn Addas i'r Dyfodol?' Adroddiad**

Yn bresennol;

- Alison Rees – SAC - Archwilydd Perfformiad
- Non Jenkins – SAC - Rheolwr Rhanbarthol Llywodraeth Leol (Rhanbarth De-ddwyrain Cymru)
- Elizabeth Blayney – Rheolwr Craffu a Llywodraethu
- Eleanor Mulligan – Rheolwr Democratiaeth a Chyfathrebu

Cyflwynodd cynrychiolwyr SAC yr Adroddiad 'Trosolwg a Chraffu – Addas i'r Dyfodol?'yn Atodiad 1 ac amlinellu prif ganfyddiadau'r adroddiad a'r chwe chynnig a oedd yn cael eu hawgrymu i wella trefniadau Craffu Cyngor Dinas Casnewydd.

Amlinellodd y Rheolwr Democratiaeth a Chyfathrebu Ymateb y Rheolwyr i gynigion SAC ar gyfer gwella, yn Atodiad 2. Dywedwyd bod yr hyn a oedd yn cael ei argymell eisoes wedi'i adlewyrchu yn yr Adroddiad Blynyddol Craffu, yn y Camau ar gyfer eleni, a oedd wedi cael eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf.

Amlinellir cwestiynau'r Pwyllgor a'r ymatebion cysylltiedig isod:

- Holodd y Pwyllgor a allai SAC gynnig enghreifftiau o arfer da wrth ymgynghori â'r cyhoedd i'r Cyngor, yn enwedig o ran sut y gallai'r Pwyllgorau ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd, a sut i nodi pwy i'w gwahodd i gyfarfodydd ac annog y cyhoedd i gymryd rhan yn y broses. Gan fod yr adolygiad yn cael ei gynnal ar raddfa genedlaethol, dywedwyd wrth yr Aelodau y gellid rhannu enghreifftiau o arfer da â'r Cynghorau'n ddiweddarach. Byddai cyfarfod rhwydwaith yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd i rannu enghreifftiau o arfer da, lle gellid cynnwys hyn. Cytunodd cynrychiolydd SAC i ystyried casglu enghreifftiau penodol a'u dosbarthu i'r Awdurdodau Lleol. Roedd SAC yn parhau i ddweud eu bod yn herio'r holl Awdurdodau Lleol i fynd i mewn i'r Gymuned i gynnal cyfarfodydd craffu, fel ei bod hi'n haws i'r cyhoedd gymryd rhan.

- Trafododd y Pwyllgor yr argymhellion a'r sylwadau yn yr adroddiad a oedd yn ymwneud ag ymgysylltu â'r Weithrediaeth. Cytunai'r Pwyllgor â'r sylwadau yn yr adroddiad a nodai fod Craffu yn tueddu i gyfeirio cwestiynau i sylw Swyddogion yn hytrach na'r Weithrediaeth. Cytunai'r Pwyllgor fod angen i bob Pwyllgor fynd i'r afael â hyn, gan gredu y byddai angen 'newid diwylliant' er mwyn gweithredu rhai o'r argymhellion yn effeithiol.

- Bu'r Pwyllgor yn trafod cyfathrebu rhwng y Cabinet a Chraffu, gan nodi bod blaenraglen waith y Cabinet yn fwy deinamig na'r Rhaglen Waith Craffu, a bod hynny'n golygu y bu'n anodd alinio'r rhaglenni gwaith yn y gorffennol. Cytunai'r Pwyllgor fod angen gwneud gwaith pellach i alinio'r rhaglenni gwaith er mwyn datblygu perthynas waith effeithiol rhwng Craffu a'r Cabinet. Eglurodd y Rheolwr Democratiaeth a Chyfathrebu fod yr adran wedi cael ei hailstrwythuro yn ddiweddar a bod hyn wedi effeithio ar yr amser yr oedd hi'n ei gymryd i weithredu newidiadau. Roedd meysydd gwasanaeth Democratiaeth a Chyfathrebu wedi'u huno o dan un adran, ac roedd newidiadau eraill yn cynnwys creu Swyddfa Cabinet ar wahân gyda Rheolwr Swyddfa penodedig a fyddai'n rheoli Rhaglen Waith y Cabinet.

  - Nododd y Pwyllgor bwysigrwydd gwella'r trefniadau i ymgynghori ar y gyllideb flynyddol, gan nodi'n arbennig argymhellion blaenorol y Pwyllgor y dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn gynharach ar gynigion arbed y gyllideb, er mwyn rhoi mwy o amser i'r cyhoedd. Nodwyd hefyd nad oes gan y Cabinet eitem safonol ar ei agenda i dderbyn sylwadau ac argymhellion gan y Pwyllgorau

Craffu. Eglurodd y Rheolwr Democratiaeth a Chyfathrebu y bu oedi wrth ddatblygu dull cyson o gyfathrebu rhwng Craffu a'r Cabinet oherwydd yr ad-drefnu y cyfeiriwyd ato'n flaenorol. Eglurwyd bod proses Llythyrau Craffu wedi'i chytuno â'r Cadeiryddion ac yn cael ei datblygu, lle byddai'r Pwyllgorau'n anfon argymhellion i'r Cabinet drwy lythyr ffurfiol wedi'i lofnodi gan y Cadeirydd. Byddai'r llythyr yn cael ei gyhoeddi ar y tudalennau gwe Craffu, ynghyd â'r ymateb a gafwyd. Roedd y modd y byddai'r Cabinet yn derbyn y llythyrau hyn yn dal i gael ei benderfynu a'i gytuno.

- Mynegodd un Cynghorydd y farn ei fod yn cael Adroddiadau Craffu yn hawdd eu deall, a bod y swyddogaeth Graffu'n perfformio'n effeithiol. Nodwyd hefyd fod yn rhaid i Aelodau Pwyllgor gymryd cyfrifoldeb drwy baratoi a chydweithio i wella, a thrwy amlygu unrhyw faterion cyn gynted ag y byddent yn codi. Dywedwyd hefyd y bu newidiadau mawr i'r swyddogaeth Graffu dros y 3 i 4 blynedd diwethaf, a bod y newidiadau hynny er gwell, er bod lle o hyd i ddatblygu a gwella.

- Gofynnodd yr Aelodau i SAC sut roedd Pwyllgorau Craffu Casnewydd yn cymharu ag Awdurdodau eraill. Er bod hwn yn gwestiwn teg, dywedwyd wrth yr aelodau ei fod yn anodd ei ateb gan fod pob awdurdod yn gweithio ac yn gweithredu'n wahanol o fewn amgylcheddau, a olygai fod cymariaethau uniongyrchol yn anodd. Gellid rhannu themâu allweddol a oedd yn amlwg mewn rhai Awdurdodau, neu yn yr holl Awdurdodau.

- Dywedodd yr Aelodau nad oedd ganddynt ryw lawer o amser i ddarllen agendâu cyn y cyfarfod, gan eu bod yn cael eu cyhoeddi a'u rhannu wythnos cyn y cyfarfod. Nododd y Rheolwr Democratiaeth a Chyfathrebu fod y papurau'n cael eu cyhoeddi cyn gynted ag yr oeddent ar gael, a bod y cyfnod o wythnos yn gyson â rhwymedigaethau statudol.

- Trafododd y Pwyllgor anghenion hyfforddi, a'r modd y gallai'r anghenion hynny amrywio rhwng pob Aelod unigol. Holodd yr Aelodau a oedd hi'n werth ystyried cael pecyn hyfforddi a oedd yn cynnwys adroddiadau enghreifftiol ac esboniad ynghylch arfer gorau wrth ofyn cwestiynau craffu. Dywedodd y Rheolwr Craffu a Llywodraethu y byddai'r tîm yn fwy na hapus i roi briff pe bai angen. Dywedodd y Rheolwr Craffu a Llywodraethu wrth y Pwyllgor y byddai holiadur adborth yn cael ei rannu ag Aelodau'r Pwyllgor yn y misoedd nesaf, ac y byddai croeso i bobl gynnig syniadau i gefnogi a datblygu'r Aelodau Craffu. Atgoffwyd yr Aelodau, os oedd agweddau lle'r oedd angen hyfforddiant, y gellid codi hynny gyda'r Tîm Craffu ar unrhyw bryd a darparu'r hyfforddiant hwnnw.

- Awgrymodd y Pwyllgor y gallai Aelodau'r Cabinet dderbyn briff ar adroddiad SAC ac ar y broses Graffu, a'u rôl pan fyddant yn bresennol mewn Pwyllgor Craffu. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am linell amser i ateb unrhyw ymholiadau, sylwadau ac argymhellion, ee, 10 diwrnod. Mae achosion wedi codi lle na chafodd y Pwyllgor ateb i gwestiwn am 4 i 5 mis. Dywedodd y Rheolwr Craffu a Llywodraethu wrth y Pwyllgor fod yr adran yn ystyried sut y caiff argymhellion Craffu eu hadrodd i'r Cabinet, fel bod pawb yn deall yn glir sut i gael ateb ac adborth.

- Dywedodd yr Aelodau na chafwyd digon o gymhariaeth ystyrlon ag Awdurdodau Lleol eraill o ran Dangosyddion Perfformiad. Dywedodd cynrychiolwyr SAC fod modd cymharu elfennau penodol, a bod y Cyngor yn gwneud llawer i gymharu ei

berfformiad ag eraill, ond mai ffordd well o herio'r perfformiad oedd gofyn pam bod angen yr wybodaeth honno, yn hytrach nag edrych ar un manylyn a gofyn pam eich bod yn edrych ar rywbeth.

- Dywedodd y Pwyllgor fod SAC wedi trefnu cynhadledd yn y gorffennol, lle byddai'r holl Awdurdodau Lleol yn dod ynghyd i drafod craffu a rhannu arferion gorau. Gofynnodd y Pwyllgor a ellid trefnu hyn eto. Dywedodd y Rheolwr Democratiaeth a Chyfathrebu mai Casnewydd a oedd wedi trefnu'r digwyddiad y cyfeiriwyd ato, ac y byddai angen swm sylweddol o adnoddau i'w drefnu, a bod yr adnoddau hynny'n brin. Cafwyd cefnogaeth yn flaenorol ar gyfer digwyddiadau tebyg gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), ond nid oedd y gefnogaeth honno ar gael mwyach oherwydd prinder cyllid.

- Cyfeiriwyd at orwariant o £400,000 yn gysylltiedig â safle Teithwyr a grybwyllwyd ar agenda'r Cabinet, a gofynnwyd pam nad oedd Craffu wedi ystyried hyn. Dywedodd y Cynghorydd Craffu y byddai hyn yn cael ei gyfeirio i sylw'r Pwyllgor Craffu priodol er ystyriaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol.

Argymhellion

Gwnaed y sylwadau a'r argymhellion canlynol gan y Pwyllgor;

- Nododd yr Aelodau orwariant o £400,000, yn gysylltiedig â gorwariant Norse ar safle Teithwyr, a fyddai'n cael ei gyfeirio i sylw'r Pwyllgor Craffu Perfformiad - Lle a Materion Corfforaethol er ystyriaeth, yn rhan o'i waith i ystyried perfformiad a monitro cyllideb y maes gwasanaeth.

- Gofynnwyd i'r Rheolwr Democratiaeth a Chyfathrebu sefydlu ffyrdd i wella'r trefniadau cyfathrebu rhwng y Cabinet a Chraffu, ac adrodd yn ôl ar hynny i'r Pwyllgor.

- Y Rheolwr Democratiaeth a Chyfathrebu i ystyried dulliau o ddwyn y Weithrediaeth i gyfrif a gwella swyddogaethau presennol. Credai'r Pwyllgor fod angen newid diwylliant er mwyn llwyddo yn hyn o beth.

- Y Rheolwr Democratiaeth a Chyfathrebu i ystyried ffyrdd posibl i gydamseru'r rhaglen waith Craffu a rhaglen waith y Cabinet.

- Y Rheolwr Craffu a Llywodraethu i ddylunio adnodd hyfforddi i'r Aelodau Craffu yn seiliedig ar 'achosion prawf'.

- Y Rheolwr Democratiaeth a Chyfathrebu i ddatblygu hyfforddiant Craffu yn benodol ar gyfer y Cabinet.

- Y Pennaeth Pobl a Newid Busnes i wella ffyrdd o ddarparu data cymharol i'r swyddogaeth Graffu o'r blynyddoedd cynt ac o Awdurdodau Lleol, er mwyn galluogi craffu gwell.

**5 Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) Pillgweli - Monitro Gweithredu**

Yn bresennol;

- Jonathan Keen – Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio - Yr Amgylchedd a Chymunedau
- Yr Arolygydd Jason Williams – Heddlu Gwent
- Tracey Holyoake – Cynghorydd Ward Pillgwenlli

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio yr adroddiad i'r Pwyllgor ac amlinellodd mai diweddariad oedd yr adroddiad ar gynnydd wrth weithredu'r PSPO ym Mhillgwenlli. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am y diweddariad yn ei gyfarfod blaenorol lle bu'n trafod y PSPO. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am gyfyngiadau'r Gorchymyn, gweithredu'r cyfyngiadau hynny a'r ffigurau ar gyfer y defnydd o Hysbysiadau Cosb Benodedig (FPNs) a'r heriau wrth orfodi. Esboniodd y Swyddog y prif bwyntiau i'r Pwyllgor:

- Tynnodd y Swyddog sylw at adran tri yr adroddiad, ynghylch gwasgaru pobl a oedd yn ymgasglu mewn grwpiau o dri neu fwy. Eglurodd y Swyddog fod mwyafrif y grwpiau'n gwasgaru heb orfod cyflwyno FPN. Amlinellodd y Swyddog fod hyn yn adlewyrchu effaith y PSPO, gan fod aelodau o'r cyhoedd, wrth ofyn iddynt beidio yfed alcohol, neu ildio cynwysyddion alcohol, wedi gwneud hynny heb fod angen cyflwyno FPN.

- Roedd wyth FPN wedi'u cyflwyno, saith am beidio rhoi'r gorau i yfed ac un am beidio gwasgaru.

- Bu heriau yn y flwyddyn gyntaf, ac roedd hyn wedi'i drafod yn adran pump - yr her amlycaf oedd grwpiau a oedd yn gwrthod gwasgaru. Byddai rhai grwpiau'n gwasgaru am gyfnodau byr cyn ffurfio grŵp unwaith eto. Nid oedd Swyddogion yr Heddlu yn siŵr am ba mor hir yr oedd angen i'r grŵp wahanu, ac roedd cyngor wedi'i geisio gan gyfreithwyr Cyngor ynghylch sut i weithredu yn y sefyllfaoedd hyn. Y cyngor cyfreithiol oedd bod yn rhaid i'r Heddlu ddangos eu bod wedi bod yn rhesymol os oedd FPN yn cael ei gyflwyno ar ôl i grŵp ailffurfio. Er enghraifft, roedd angen i'r Heddlu gyfleu'n glir am ba mor hir yr oedd angen i'r grŵp aros ar wasgar wrth ofyn i'r grŵp wasgaru. Pe bai'r grŵp yn ailffurfio o fewn y cyfnod hwn, gallent gyflwyno FPN. Rhagwelwyd y byddai'r cadarnhad hwn yn rhoi mwy o hyder i'r Heddlu gyflwyno FPN lle bo hynny'n briodol ac y angenrheidiol.

- Ni chafwyd unrhyw alwadau gan y Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol i ychwanegu neu ddileu unrhyw gyfyngiadau. Credai'r Rheolwr fod y cyfyngiadau wedi'u geirio'n glir bellach ac y gellid gwneud defnydd helaethach ohonynt lle bo hynny'n briodol ac yn angenrheidiol.

Cyflwynodd yr Arolygydd ei hun i'r Pwyllgor. Dywedodd wrth yr Aelodau fod yr Heddlu wedi adolygu'r PSPO. Dywedwyd wrth yr aelodau bod y GMC yn arf ardderchog, yn enwedig er mwyn ymdrin â grwpiau o bobl ifanc. Er cydnabod bod nifer yr FPNs a roddwyd yn isel, roedd y Swyddogion yn defnyddio proses y PSPO i ofyn i bobl wasgaru heb orfod rhoi FPN. Ychwanegodd y bu peth rhwystredigaeth ynghylch pryd i roi Hysbysiad Cosb Benodedig, ond roeddem wedi ymdrin â hynny drwy wrando ar gyngor cyfreithwyr y Cyngor. Dywedodd yr Arolygydd fod yr Heddlu eisiau i'r PSPO barhau, ond o bosib gyda rhai newidiadau. Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd fod cyfyngiadau tebyg wedi'u defnyddio ym Maesglas, gan eu bod yn trafod ymddygiad gwrthgymdeithasol, hy, dosbarthu cyffuriau neu yfed alcohol yn gyhoeddus.

Cyflwynodd y Cynghorydd Tracey Holyoake hi ei hun i'r Pwyllgor ac esbonio, tra'r oedd wedi bod yn byw yn y ward, ei bod wedi gweld effaith gadarnhaol y PSPO yn y

gymuned. Aeth y Cynghorydd yn ei blaen i ddweud bod hyn wedi digwydd nid yn unig drwy gyflwyno FPNs, ond drwy ofyn i bobl symud yn eu blaenau. Roedd y strydoedd yn llawer tawelach, er bod problemau eraill yn dod i'r amlwg. Nododd y Cynghorydd fod y PSPO yn arf pwysig i'r Heddlu wneud yn siŵr bod Pill yn datblygu i fod yn ardal ddymunol i'w phreswylwyr, a bu'n amhrisiadwy. Roedd problemau o hyd gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn y Ward; fodd bynnag, roedd o PSPO wedi newid pethau er gwell.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Trafododd yr Aelodau bresenoldeb a chyfranogiad yr heddlu o fewn wardiau, a nododd rhai ohonynt nad oedd hi'n ymddangos fel pe bai'r Heddlu'n bresennol yn rheolaidd yn eu ward. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod nifer craidd o bum Swyddog ym Mhill, ac y bu'r Heddlu'n ffodus i allu rhoi hwb i'r ffigur hwnnw drwy ddyblu'r nifer am y tymor byr, ac yn barhaol os oedd modd cyfiawnhau hynny. Bydd Heddlu Gwent yn parhau i benodi Swyddogion i swyddi a meithrin perthnasoedd â phobl mewn Cymunedau. Dywedwyd bod sefydlogrwydd yn aml yn broblem, gyda chyfleoedd mewn wardiau eraill i Swyddogion wneud cais am ddyrchafiad.

- Gofynnodd Aelod faint o'r FPNs a gafodd eu talu, a beth oedd canlyniadau peidio talu. Dywedodd y Swyddog fod saith FPN wedi'u cyflwyno am yfed alcohol; roedd pedwar ohonynt wedi'u talu a thri heb eu talu. Roedd un wedi'i gyflwyno am ymddygiad gwrthgymdeithasol ac am wrthod gwasgaru. Nid oedd yr un o'r rhai a oedd heb dalu wedi'u dwyn gerbron llys.

- Dywedodd y Cynghorydd Holyoake wrth y Pwyllgor fod y Gorchymyn Gwasgaru yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol mewn ardaloedd penodol. Gallai'r rhai a oedd yn cydgasglu ac yn cael eu gwasgaru fynd i ardaloedd eraill, gan gynnwys Canol y Ddinas. Roedd yr Heddlu hefyd yn ymwybodol o hyn, ond roedd yr ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mhill wedi gostwng ar y cyfan, a'r cymunedau wedi gweld gwelliant. Ailbwysleisiodd yr Arolygydd fod y PSPO yn gweithio o'i ddefnyddio ar y cyd ag offer eraill, fod y PSPO yn cefnogi eu pwerau eraill, ac yn ei gwneud hi'n haws mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- Gofynnodd y Pwyllgor pam nad oedd y rhai nad oeddent wedi talu'r FPN wedi'u dwyn gerbron y llys am beidio talu'r ddirwy, a fyddai'n cyfleu neges gadarnhaol i'r troseddwyr. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gwaith ar y gweill i gasglu'r wybodaeth gywir yr oedd ei hangen er mwyn dwyn y rhai nad oeddent wedi talu gerbron llys. Dywedodd y Cyng Holyoake hefyd wrth y Pwyllgor fod gwaith ar y gweill gyda chymdeithasau tai i roi rhybuddion i denantiaid am ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- Dywedodd yr Arolygydd fod y Cynghorydd Holyoake wedi bod yn cynnal trafodaethau parhaus â'r Prif Gwnstabl i amlinellu cynlluniau ar gyfer camau byrdymor i ymdrin â gweithwyr rhyw. Byddai Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn galluogi'r Heddlu i amlygu unigolyn a fyddai'n cael ei ddal gyda gweithiwr rhyw; byddai hynny'n cael ei gynnwys ar ei record, felly pe bai'n cael ei ddal yn rhywle arall byddai awdurdodau'r Heddlu yn gwybod am ei hanes o droseddau tebyg. Roedd hyn yn golygu y byddai'r unigolyn yn cael ei erlyn o

gael ei ddal wedi hynny y tu allan i ardal Casnewydd. Dywedwyd hefyd fod gwaith ar y gweill gyda Chyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru ac asiantaethau eraill er mwyn helpu i ddiogelu rhai sy'n cael eu cam-drin a cheisio eu tynnu allan o'r sefyllfa.

- Dywedodd yr Aelodau fod y broblem tipio anghyfreithlon wedi gwella. Canmolodd yr Arolygydd y Cynghorydd Holyoake a thîm y Cyngor am helpu i lanhau'r ardal.

- Canmolodd yr Aelodau waith Cynghorydd y ward lleol, a'r cydweithio a gafwyd rhwng yr Heddlu a Swyddogion er mwyn ceisio gwella'r ardal. Gofynnwyd wedyn a oedd y gwaith cadarnhaol hwn yn cael ei ailadrodd, a dull tebyg yn cael ei fabwysiadu mewn Heddluoedd eraill. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Casnewydd ar hyn o bryd ym gofyn am gyngor gan Heddluoedd eraill. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio wrth y Pwyllgor fod Cyngor Barnsley wedi ymweld er mwyn dysgu mwy am PSPO Casnewydd.

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr wybodaeth a ddarparwyd gan gyfreithiwr y Cyngor ar dudalen 19 yr agenda, paragraff 5. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai ond yr awdurdod lleol a allai erlyn am dorri'r PSPO.

- Holodd y Pwyllgor sut y gallai'r Cyngor gael y PSPO am gyfnod hwy na 3 blynedd. Dywedodd yr Arolygydd mai 3 blynedd yw'r uchafswm amser a nodir yn neddfwriaeth y DU. Y Cyngor oedd i benderfynu pryd i adolygu'r PSPO a phenderfynu a oedd yn dymuno adnewyddu'r Gorchymyn.

- Gofynnodd yr Aelodau i'r Pwyllgor dderbyn cofnod o bob rhybudd a dirwy a gyflwynwyd.

Argymhellion

Nododd y Pwyllgor y diweddariad ynghylch gweithredu'r PSPO a'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn gysylltiedig â hyn.

Gofynnodd y Pwyllgor am gael cynnwys adroddiad pellach ar raglen waith y Pwyllgor ymhen blwyddyn, ac i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth am bob achos a gofnodwyd lle defnyddiwyd cyfyngiadau'r Gorchymyn gan Swyddogion yr Heddlu a chyflogeion y Cyngor.

## 6 Adroddiad Blynyddol drafft Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2017/18

Yn bresennol

- James Harris – Cyfarwyddwr Strategol – Pobl
- Sally Anne Jenkins – Pennaeth Plant a Phobl Ifanc
- Jenny Jenkins - Rheolwr Gwasanaeth

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol – Pobl - yr adroddiad i'r Pwyllgor, a dywedodd fod fformat yr adroddiad yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru. Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai'r bwriad fu gwneud yr adroddiad yn symlach, ac yn fwy hydrin a darllenadwy. Y gair olaf gan y Cyfarwyddwr Strategol oedd bod yr adroddiad ar ffurf drafft ar hyn o bryd ac, ar sail sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor, y byddai'r drafft yn cael ei ddiweddaru cyn ei gyflwyno gerbron y Cabinet a'r Cyngor.

Trafododd yr Aelodau y canlynol:

- Canmolodd yr Aelodau'r Swyddog am lunio adroddiad a oedd mor hygyrch a rhwydd ei ddarllen. Nodwyd bod nifer o ystadegau ar dudalen 31-33, ond nad oedd unrhyw wybodaeth er mwyn cymharu. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnwys ffigurau'r flwyddyn gynt a chyflawniadau awdurdodau lleol eraill er cymhariaeth. Gwnaeth yr aelodau sylw hefyd ynghylch y ddibyniaeth ar arolygon.

- Trafododd yr Aelodau ymweliadau Rota y Gwasanaethau Cymdeithasol, sef ymweliadau â chartrefi plant ac oedolion. Holodd y Pwyllgor a oedd yr Aelodau'n cynnal digon o ymweliadau, a pha werth yr oedd yr ymweliadau hynny'n ei ychwanegu. Eglurodd y Swyddog fod ymweliadau'n cael eu cynnal unwaith y mis, ac mai pwrpas yr ymweliadau oedd cael adborth gan y staff a'r preswylwyr ac edrych ar y cyfleusterau i weld a oedd yr adeiladau'n addas i'r diben. Roedd ymweliadau gan yr Aelodau wedi creu gwerth ac adborth, a adroddwyd yn ôl i'r cartrefi, ac roedd y camau a gymerwyd yn briodol.

- Roedd yr Aelodau'n falch o'r gydnabyddiaeth a roddwyd i reolwr Oaklands yn yr adroddiad, gan ddweud bod hynny'n enghraifft dda o waith cymunedol. Yna holodd yr Aelodau ynghylch Gwasanaeth Maethu De Ddwyrain Cymru, gan ofyn a oedd perygl i blant gael eu lleoli y tu allan i'w cymuned leol. Cyfeiriwyd at enghraifft o blentyn a leolwyd ym Mlaenau Gwent, a allai olygu bod cadw cysylltiad â'r teulu yn her. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am sicrwydd bod plant a oedd yn cael eu lleoli gan gwmnïau preifat wedi derbyn gofal a threfniadau monitro o'r un ansawdd ag y byddent gyda'r Cyngor. Hysbyswyd yr Aelodau fod y boblogaeth a oedd yn maethu yn heneiddio, felly roedd angen recriwtio gofalwyr maeth newydd. Roedd pob rhanbarth wedi edrych ar yr hyn y gallent ei gyfrannu gyda'i gilydd, ac ar yr hyn a oedd yn gweithio i bob Awdurdod Lleol. Roedd parodrwydd i gydweithio a rhannu adnoddau er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau ar draws y pum awdurdod. Mae'r Cyngor yn rheoli cyswllt plant yn ein gofal â'u teuluoedd, a bydd teuluoedd yn cael cefnogaeth i gadw cyswllt. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd nad oedd unrhyw wahaniaeth o gwbl rhwng y gefnogaeth a gynigir yn y sector cyhoeddus a'r gefnogaeth yn asiantaethau'r sector preifat, a bod mynediad yr un peth i bob plentyn.

- Gofynnodd y Pwyllgor am gael cynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch trosglwyddo o'r Gwasanaethau Plant i'r Gwasanaethau Oedolion yn yr adroddiad terfynol. Roedd yr Aelod yn cyfeirio'n benodol at nifer y trosglwyddiadau a oedd yn cael eu cynnal a faint ohonynt a oedd yn cael eu cynnal ar amser. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai elfen o hyn y cael ei hychwanegu i'r adroddiad terfynol, ac y byddai'r drafft diwygiedig yn cael ei rannu ar ôl gwneud y newidiadau.

- Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ynghylch cyflawniadau allweddol Casnewydd 2017-18 a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Un enghraifft oedd y ffaith nad oedd presenoldeb o 4000 ar gyrsiau yn dangos pa ganlyniadau a gyflawnwyd, ac nid oedd ffigurau presenoldeb yn unig yn helpu aelodau i ddeall pam bod hynny'n gyflawniad allweddol. Teimlai'r Aelodau nad oedd yr holl flaenoriaethau allweddol a restrwyd yn yr adroddiad yn gyflawnadwy. Roedd yr Aelodau'n falch o weld geirfa yn yr adroddiad, er bod angen ychwanegu ambell derm arall - un enghraifft a roddwyd oedd 'NEET'.

- Trafododd yr Aelodau'r ymrwymiadau a oedd i'w cyflawni erbyn 2022 yng Nghynllun Corfforaethol 2017-2022: *“Byddwn yn sicrhau bod 85% o’r rhai sy’n gadael gofal yn cael cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant”.* Y ffigur ar dudalen 53 yr adroddiad a nodai fod 44.4% o bobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal. Roedd yr Aelod a oedd hyn yn ael ei ystyried yn isel i raddau cymharol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod 12 mis arall yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i bobl ifanc, yn enwedig rhai sy'n gadael gofal. Bydd pobl ifanc yn aeddfed ac wrth wneud hynny'n sylweddoli pa mor bwysig yw addysg, felly ar ôl setlo byddant yn dychwelyd i fyd addysg. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ei bod weithiau'n heriol cael plant sy'n derbyn gofal i mewn i fyd addysg, oherwydd erbyn i'r plant gyrraedd y Gwasanaethau Cymdeithasol maent eisoes wedi colli cyfran fawr o'u haddysg.

- Holodd yr Aelodau a oedd y problemau a oedd yn cael eu codi'n gysylltiedig â staffio yn arwain at 'argyfwng staffio' yn y dyfodol. Dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd 'argyfwng staffio' ar hyn o bryd, ond pwysleisiwyd pwysigrwydd cynyddu nifer y bobl sy'n ymuno â'r proffesiwn gofal er mwyn atal argyfwng yn y dyfodol. Roedd hyn yn broblem ar raddfa Cymru gyfan, a'r rhagolygon oedd y byddai prinder staff. Roedd pwysau ar gartrefi preswyl i gadw eu staff, ond oherwydd trosiant uchel o staff roedd hyn yn dal i fod yn broblem. Roedd academi Gwent yn anelu i greu llwybr gyrfa i'r proffesiwn gofal.

- Dywedodd y Swyddog wrth y Pwyllgor fod y Cyngor yn ceisio cefnogi'r gweithlu gofal hyd eithaf ei allu er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd. Roedd gan Academi Gofal Gwent gynllun strategol er mwyn denu pobl i'r proffesiwn a chynyddu cyfraddau cadw staff. Byddai'r academi yn cynnig pasbort hyfforddi a fyddai'n arwain at safoni'r hyfforddiant a ddarperir i'r staff ac yn rhoi mwy o statws i'r hyfforddiant. Byddai'r pasbort o gymorth i ostwng costau hyfforddi staff a gallai gofalwyr drosglwyddo eu cymwysterau o'r naill asiantaeth i'r llall.

- Roedd yr Aelodau'n dymuno anfon llythyr o ddiolch at yr holl ofalwyr maeth i'w canmol am eu gwaith ardderchog. Cytunodd y Pennaeth Plant a Phobl Ifanc â'r Pwyllgor a dweud wrthynt y byddai hynny'n cael ei wneud.

- Trafododd yr Aelodau y sylw am yr Aelod Cabinet ar dudalen 59 a chanmol y gwaith. Aeth yr Aelodau yn eu blaenau i ychwanegu y byddai'n ddefnyddiol esbonio mwy ynghylch sut yr oedd y cyfarfodydd a gynhaliodd yr Aelod Cabinet â grwpiau cymunedol wedi trosi'n fwy o ymgysylltiad, a beth fu canlyniadau'r gwaith hwnnw.

<u>Argymhellion</u>

Gwnaed y sylwadau a'r argymhellion canlynol gan y Pwyllgor;

- Byddai'r Cyfarwyddwr Strategol yn ailddrafftio'r adroddiad i gynnwys y newidiadau a drafodwyd cyn i'r adroddiad fynd o flaen y Cabinet.

- Byddai'r Pennaeth Plant a Phobl Ifanc yn anfon llythyr o ddiolch at ofalwyr maeth.

7 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Yn bresennol:

- Daniel Cooke – Cynghorydd Craffu

a) Diweddariad ar y **Flaenraglen** Waith

Cyflwynodd y Cynghorydd Craffu y Flaenraglen Waith, a rhoi gwybod i'r Pwyllgor pa bynciau fyddai'n cael eu trafod yn nau gyfarfod nesaf y pwyllgor:

<u>Dydd Iau 15 Tachwedd 2018</u>

Roedd yr eitemau ar yr agenda yn cynnwys:

- Y Cynllun Corfforaethol – Monitro Argymhellion
- Strategaeth Rheoli Perfformiad – Monitro Argymhellion
- Adolygu Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Yn dilyn trafodaeth ynghylch yr angen i sicrhau cynrychiolydd o'r Weithrediaeth ar gyfer yr eitem ar yr agenda a oedd yn ymwneud â'r Cynllun Corfforaethol, penderfynodd y Pwyllgor y dylid gwahodd Arweinydd y Cyngor i fod yn bresennol yn y cyfarfod ar 15 Tachwedd ar gyfer Eitem *Y Cynllun Corfforaethol - Monitro Argymhellion* ar yr Agenda.

<u>Dydd Iau 31 Ionawr 2019</u>

Roedd yr eitem ar yr agenda yn cynnwys:

- Cynigion Cyllideb Ddrafft y Cabinet 2019/2020

b) Camau Gweithredu'n Codi

Gofynnodd y Pwyllgor am gael cynnwys y daflen camau gweithredu wrth ymyl y cofnodion ar flaen yr agenda, yn hytrach nag yn y cefn. Dywedwyd hefyd fod llawer o'r camau'n disgwyl ymateb. Dywedodd y Cynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor fod llythyrau'n cael eu hanfon at y Swyddog perthnasol i'w gweithredu lle bo'n briodol. Lle bo camau heb eu cwblhau, byddent yn cael eu cadw ar y daflen camau gweithredu nes i'r Pwyllgor dderbyn ymateb digonol.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd a ellid cyflwyno adroddiadau'n fertigol yn hytrach na llorweddol. Dywedodd y Cynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor nad oedd hi bob amser yn bosibl cyflwyno adroddiadau'n fertigol.

O ran yr argymhellion a wnaed i'r Cabinet ar Eitem 3 y cofnodion 'Proses y Gyllideb ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd - Monitro Argymhellion', nododd y Pwyllgor nad oedd eto wedi derbyn ymateb oddi wrth y Cabinet. Yn benodol, roedd y Pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion ynghylch y trefniadau i ymgynghori â'r cyhoedd ar y gyllideb, a fyddai'n effeithio ar ymgynghoriad eleni ym mis Rhagfyr. Nododd y Cynghorydd Craffu y byddai'r ymateb yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Gwnaed ymholiad ychwanegol ynghylch pam roedd Craffu yn dal i ddisgwyl am ymatebion yn gysylltiedig â phroses y gyllideb. Dywedodd y Cynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor mai ond yn ddiweddar y cafodd y broses ei sefydlu i alluogi'r Cabinet i dderbyn llythyrau Craffu, a byddai'r ymateb yn gynt yn y dyfodol.

c) Adroddiadau Gwybodaeth

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00 pm

Daeth y cyfarfod I ben am 1.00 pm